



## **DIGWYDDIAD canol y dref yn gwneud sbloet dros benwythnos Gŵyl Banc.**

Stryd Fawr y Rhyl oedd y llwyfan ar gyfer diwrnod o hwyl a gemau ar thema'r môr ar Ddiwrnod Gŵyl Fai y Maer.

Roedd y digwyddiad cymunedol a drefnwyd gan Gyngor Tref y Rhyl yn cynnwys cerddwyr ystudfachau mawr yn patrolio'r traeth, pysgotwyr comedi, gemau traddodiadol glan y môr a'r reid sydd wedi ei galw yr arafaf ar y ddaear.

Roedd syrffiwr arbennig, peintio wynebau a cherddoriaeth gan gôr cymunedol Ghostbuskers, sy'n cynnwys aelodau o'r Rhyl, yn cwblhau'r adloniant.

Dyma'r ail waith i Ddiwrnod Gŵyl Fai y Maer ac mae'n nodi diwedd ei blwyddyn yn y swydd i'r maer, y Cyngorydd Win Mullen-James.

**Mwy/...**



-2-

Meddai'r Cyngorydd Mullen-James: "Denodd Diwrnod Gŵyl Fai'r Maer gan-noedd o bobl i ganol y dref ac roedd yr actau patrol traeth a'r pysgotwyr yn medru crwydro'n ehangach, gan groesawu ymwelwyr i'r promenâd a'r manau o gwmpas.

"Gyda'r holl weithgareddau am ddim, roedd rhywbeth yn y digwyddiad i bawb gan gynnwys y reid arafaf ar y ddear – bad achub wedi ei wneud o hamogau sy'n troi a throelli'n araf.

"Rwyf wedi mwynhau fy mlwyddyn yn y swydd yn fawr iawn, ac roedd y digwyddiad hwn yn ffordd wych i ddiolch i bobl y Rhyl am eu cefnogaeth, felly roedd yn wych gweld cymaint o bobl yn mwynhau'r hwyl a'r gemau."

Digwyddiad nesaf Cyngor Tref y Rhyl fydd diwrnod o weithgareddau am ddim ar thema'r syrcas, a gaiff ei gynnal ar y stryd fawr ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 13.

Diwedd

